Y Comisiwn Etholiadol

Ffurflen UA3

Adroddiad chwarterol ar roddion a wnaed i gymdeithas anghorfforedig ar ôl i gyfraniad gwleidyddol gael ei wneud

Unwaith y byddwch wedi ein hysbysu eich bod wedi gwneud cyfraniadau gwleidyddol o fwy na £25,000 mewn blwyddyn galendr, rhaid i chi anfon adroddiadau chwarterol atom am unrhyw roddion a wnaed i'r gymdeithas ar ôl gwneud y cyfraniadau hyn.

Bob chwarter mae angen i chi ddweud y canlynol wrthym:

- manylion yr holl roddion y dylid rhoi gwybod amdanynt a wnaed i chi yn ystod y chwarter, neu
- na wnaed unrhyw roddion i chi yn ystod y chwarter – cyflwyno datganiad dim trafodion

Ymysg y rhoddion y dylid rhoi gwybod amdanynt mae:

- un rhodd sy'n werth mwy na £7,500 neu
- dwy neu fwy o roddion o fwy na £500 o'r un ffynhonnell yn yr un flwyddyn galendr sy'n gwneud cyfanswm o fwy na £7,500 neu
- unrhyw roddion ychwanegol a roddwyd gan ffynhonnell rydych eisoes wedi rhoi gwybod ei bod wedi rhoi rhodd i chi yn ystod y flwyddyn galendr, os yw'r rhoddion hynny yn werth mwy na £1,500 neu'n gwneud cyfanswm o fwy na £1,500

Byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth a roddwch ar y **gofrestr gyhoeddus o roddion y dylid rhoi gwybod amdanynt i gymdeithasau anghorfforedig.** Nid ydym yn cyhoeddi cyfeiriadau cartref rhoddwyr sy'n unigolion.

Mae'r dyddiadau diwedd chwarter a dyddiadau cau yr adroddiadau fel a ganlyn:

- 31 Mawrth – dyddiad cau 30 Ebrill
- 30 Mehefin – dyddiad cau 30 Gorffennaf
- 30 Medi – dyddiad cau 30 Hydref
- 31 Rhagfyr – dyddiad cau 30 Ionawr

Llenwi ac anfon y ffurflen atom:

Gallwch deipio'n uniongyrchol ar y ffurflen a'i hargraffu er mwyn ei llofnodi a'i hanfon atom, neu gallwch argraffu'r ffurflen, ei llenwi â llaw a'i hanfon atom.

Gweler y Blwch Diffiniadau ar ddiwedd y ddogfen am esboniad o rai o'r temau a ddefnyddir yn y nodyn esboniadol hwn.

Peidiwch â chyflwyno'r ffurflen hon yn electronig. Mae angen llofnodi'r ffurflen hon gan ei bod yn cynnwys datganiad felly gallwch naill ai ei **phostio** neu ei **ffacsio atom**.

Noder: Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon dylech fod eisoes wedi llenwi:

- ffurflen UA1 'hysbysiad o gymdeithas anghorfforedig yn gwneud cyfraniad gwleidyddol' a
- ffurflen UA2 'adroddiad ar roddion a wnaed i gymdeithas anghorfforedig cyn i gyfraniad gwleidyddol gael ei wneud'

Nodiadau Esboniadol

Mae pob nodyn yn esbonio sut i lenwi'r adran â'r rhif cyfatebol ar y ffurflen.

1 Manylion y gymdeithas anghorfforedig

Rhowch enw llawn a chyfeiriad prif swyddfa eich sefydliad a'r rhif cyfeirnod y gwnaethom ei anfon atoch ar ôl yr hysbysiad.

2 Datganiad a llofnod

Rhaid i'r datganiad gael ei lofnodi a'i ddyddio gan rywun awdurdodedig ar ran y gymdeithas anghorfforedig.

Byddwch yn gwneud datganiad pan fyddwch yn llofnodi'r ffurflen hon. Mae'n drosedd i wneud datganiad anwir yn fwriadol neu'n ddi-hid. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein Nodyn briffio: cymdeithasau anghorfforedig, sydd ar ein gwefan yn www.cymdeithasetholiadol.org.uk

3 Math o ffurflen

Os nad yw eich sefydliad **wedi cael rhoddion y dylid rhoi gwybod amdanynt** yn ystod y cyfnod adrodd chwarterol yna dylech roi tic yn y blwch **'dim rhoddion'**. Caiff y ffurflen ei thrin fel datganiad dim trafodion.

Os yw eich sefydliad wedi cael rhoddion y dylid rhoi gwybod amdanynt dylech dicio'r blwch 'rhoddion' a chwblhau'r datganiad rhoddion yn adran 4.

Os na fyddwch yn ticio unrhyw un o'r blychau yn adran 3 byddwn yn dychwelyd y ffurflen i chi fel un anghyflawn.

4 Datganiad rhoddion

Mae'r llywodraeth yn bwriadu llunio is-ddeddfwriaeth i gadarnhau beth yn union yw rhodd, ond yn y cyfamser dylech gymryd gofal wrth benderfynu beth i roi gwybod amdano – gweler y blwch diffinadau am arweiniad.

a. Dywedwch wrthym faint o bobl neu sefydliadau a wnaeth y rhoddion rydych yn rhoi gwybod amdanynt – dylai'r ffigur hwn gyfateb i nifer y cofnodion a wnewch yn adran 4 y ffurflen hon.
b. Dylech lenwi'r holl fanylion sydd gennych ar gyfer pob rhoddwr.
c. Nodwch gyfanswm neu werth y rhodd. Os nad arian oedd y rhodd i gyd neu ran ohoni, dylid nodi ei gwerth ar y farchnad. Mae disgowntiau anfasnachol ar asedau a brynir a buddiannau fel ardrethi is ar gyfer rhentu eiddo, gwasanaethau neu gyfleusterau yn debygol o gael eu cyfrif yn rhoddion hefyd. Yn yr achosion hyn, swm y rhodd yw gwerth y disgownt neu'r buddiant a gafwyd.
ch. Nodwch ar ba ddyddiad y cafwyd y rhodd. Os ydych yn rhoi gwybod am rodd luosog dylech ddefnyddio'r dyddiad y cawsoch y rhodd a gododd y gwerth dros y trothwy rhoi gwybod o £7,500, neu £1,500 yn achos rhoddion pellach yn yr un flwyddyn galendr o'r un ffynhonnell.

d. Ticiwch y blwch i ddweud wrthym p'un a yw'r rhodd dan sylw yn rhodd unigol neu'n rhodd luosog. Mae rhodd luosog yn golygu eich bod wedi cael dwy neu fwy o roddion o fwy na £500 o'r un ffynhonnell, yn yr un flwyddyn galendr sy'n creu cyfanswm o fwy na £7,500 (neu £1,500 os ydych eisoes wedi rhoi gwybod am rodd o'r ffynhonnell honno yn ystod yr un flwyddyn galendr).

Noder: Os ydych yn rhoi gwybod am rodd luosog bydd angen i chi lenwi adran 5 ar gyfer y rhodd hon hefyd.

dd. Os mai rhodd unigol oedd y rhodd, nodwch pa fath o rodd ydoedd e.e. ariannol, anariannol neu gymynrodd

Defnyddiwch y ddolen ar y ffurflen i gael rhagor o gopïau o'r adran hon os oes angen i chi roi gwybod i ni am fwy na thri rhoddwr.

5 Manylion rhodd luosog

Defnyddiwch y dudalen hon i ddweud mwy wrthym am roddion sydd wedi'u rhannu'n nifer o roddion llai. Defnyddiwch y ddolen ar y ffurflen os oes angen rhagor o gopïau o'r dudalen hon arnoch.
Am bob rhodd o fwy na £500 sy'n cyfrannu at y rhodd luosog, nodwch y canlynol:

a. y math o rodd ydoedd e.e. ariannol, anariannol, cymynrodd
b. swm neu werth y rhodd. Os nad arian oedd y rhodd, dylid nodi ei gwerth ar y farchnad a
c. y dyddiad y cafwyd y rhodd benodol

Dychwelwch y ffurflen drwy'r post neu drwy ffacs i:

Party and Election Finance
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London
EC1Y 8YZ

Ffôn: 020 7271 0616
Ffacs: 020 7271 0505
E-bost: pef@electoralcommission.org.uk
Gwefan: www.comisiwnetholiadol.org.uk

At ddefnydd y Comisiwn Etholiadol yn unig:

Y Comisiwn Etholiadol

Ffurflen UA3

Adroddiad ar roddion a wnaed i gymdeithas anghorfforedig sydd wedi gwneud cyfraniadau gwleidyddol

Adran 1 Manylion y gymdeithas anghorfforedig

Enw

Cyfeiriad

Cyfeiriad e-bost

Rhif cyfeirnod

Adran 2 Datganiad a llofnodion

Rwyf wedi cael fy awdurdodi gan y gymdeithas anghorfforedig i wneud y datganiad hwn. Rwyf yn datgan hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, bod popeth a nodir yn yr adroddiad hwn yn gywir a bod yr adroddiad yn cynnwys popeth y dylai ei chynnwys yn ôl Atodlen 19A o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Llofnodwyd

Enw wedi'i brintio

Swydd yr unigolyn

Dyddiad

Adran 3 Math o ffurflen

Rydym wedi cael (ticiwch):

Dim rhoddion – nid ydym wedi cael unrhyw roddion y mae'n rhaid i ni roi gwybod amdanynt o dan Ran IX o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. ☐

➔ Os ydych wedi ticio 'dim rhoddion', nid oes angen i chi lenwi'r datganiad rhoddion isod.

Rhoddion – rydym wedi cael rhoddion y mae'n rhaid i ni roi gwybod amdanynt o dan Ran IX o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. ☐

➔ Os ydych wedi ticio 'rhoddion', cwblhewch y datganiad rhoddion isod.

Adran 4 Datganiad rhoddion

Cyfanswm y rhoddwyr – pobl neu sefydliadau sydd wedi gwneud rhoddion i chi

➔ Rhowch fanylion am bob rhoddwr a'i roddion isod

Rhoddwr 1

Enw'r rhoddwr

Cyfeiriad y rhoddwr

Cyfanswm arian neu werth

Dyddiad cael y rhodd

Gwnaed y rhodd hon fel

Rhodd unigol ☐

Rhoddion lluosog ☐

Math o rodd

➔ Os gwnaed y rhodd ar ffurf rhoddion lluosog, rhaid i chi roi manylion y rhoddion unigol hyn drwy lenwi 'Adran 5 Manylion rhodd luosog' ar ddiwedd y ffurflen hon

Rhoddwr 2

Enw'r rhoddwr

Cyfeiriad y rhoddwr

Cyfanswm arian neu werth

Dyddiad cael y rhodd

Gwnaed y rhodd hon fel

Rhodd unigol ☐

Math o rodd

Rhoddion lluosog ☐

➔ Os gwnaed y rhodd ar ffurf rhoddion lluosog, rhaid i chi roi manylion y rhoddion unigol hyn drwy lenwi 'Adran 5 Manylion rhodd luosog' ar ddiwedd y ffurflen hon

Rhoddwr 3

Enw'r rhoddwr

Cyfeiriad y rhoddwr

Cyfanswm arian neu werth

Dyddiad cael y rhodd

Gwnaed y rhodd hon fel

Rhodd unigol ☐

Math o rodd

Rhoddion lluosog ☐

➔ Os gwnaed y rhodd ar ffurf rhoddion lluosog, rhaid i chi roi manylion y rhoddion unigol hyn drwy lenwi 'Adran 5 Manylion rhodd luosog' ar ddiwedd y ffurflen hon

Os oes angen i chi ddweud wrthym am fwy o unigolion, neu sefydliadau, sydd wedi rhoi rhoddion i'ch cymdeithas gallwch lawr lwytho ragor o dudalennau yma. ➔

At ddefnydd y Comisiwn Etholiadol

Dyddiad derbyn		Gwiriwyd gan	
Dyddiad cofnodi yn y gronfa ddata		Rhif cyfeirnod ffeil	

➔ Llenwch Adran 5 ar gyfer pob rhoddwr sydd wedi gwneud rhoddion lluosog. Gallwch gael mwy o gopïau o dudalennau adran 5 drwy glicio ar y ddolen hon.

Adran 5 Manylion rhodd luosog

Rhif y rhoddwr		Enw	
Rhodd 1 – natur y rhodd			
Swm arian neu werth		Dyddiad cael y rhodd	
Rhodd 2 – natur y rhodd			
Swm arian neu werth		Dyddiad cael y rhodd	
Rhodd 3 – natur y rhodd			
Swm arian neu werth		Dyddiad cael y rhodd	
Rhodd 4 – natur y rhodd			
Swm arian neu werth		Dyddiad cael y rhodd	
Rhodd 5 – natur y rhodd			
Swm arian neu werth		Dyddiad cael y rhodd	

Blwch diffiniadau

Unigolyn awdurdodedig yr unigolyn sydd wedi'i awdurdodi gan y gymdeithas i wneud datganiad ar ran y gymdeithas.

Rhodd (*Gift*)

Rhodd yw unrhyw beth a roddir neu a drosglwyddir i unrhyw un o swyddogion, aelodau, ymddiriedolwyr neu asiantau cymdeithas anghorfforedig yn rhinwedd swydd yr unigolyn hwnnw o fewn y gymdeithas. Rhaid i chi roi gwybod am gymynrodd a rhaid i chi roi gwybod am y canlynol:

- unrhyw rodd o arian neu eiddo i'r gymdeithas
- unrhyw danysgrifiad neu ffi arall a delir am ymgysylltu neu ymaelodi â'r gymdeithas
- unrhyw arian a werir i dalu treuliau yr eir iddynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y gymdeithas; neu
- unrhyw eiddo, gwasanaethau neu gyfleusterau a ddarperir – ac eithrio ar delerau masnachol – at ddefnydd neu fudd y gymdeithas (gan gynnwys gwasanaethau unigolyn)

Os caiff eich sefydliad fudd o nawdd am ddigwyddiad, cyhoeddiad, astudiaeth neu ymchwil cysylltwch â ni i ganfod p'un a ddylech roi gwybod am hyn yn rhodd ai peidio.

Cyfraniad gwleidyddol

- rhodd i blaid gofrestredig
- benthyciad ariannol, neu gyfleuster credyd – gan gynnwys gwarannau gwarantedig – a ddarperir i blaid gofrestredig
- rhodd i aelod o blaid gofrestredig, cymdeithas aelodau, neu ddeiliad swydd etholedig
- benthyciad ariannol, neu gyfleuster credyd – gan gynnwys gwarannau gwarantedig – a ddarperir i aelod o blaid gofrestredig, cymdeithas aelodau, neu ddeiliad swydd etholedig
- rhodd i drydydd parti cydnabyddedig; neu
- rodd i ymgyrchydd cofrestredig (cyfranogwr a ganiateir) mewn refferendwm

Rhodd (*Donation*)

- unrhyw rodd o arian neu eiddo i'r blaid neu'r sefydliad
- unrhyw nawdd a roddir mewn perthynas â'r blaid neu'r sefydliad
- unrhyw danysgrifiad neu ffi arall a delir am ymgysylltu neu ymaelodi â'r blaid neu'r sefydliad
- unrhyw arian a werir i dalu treuliau yr eir iddynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y blaid neu'r sefydliad; neu
- unrhyw eiddo, gwasanaethau neu gyfleusterau a ddarperir – ac eithrio ar delerau masnachol – at ddefnydd neu fudd y blaid (gan gynnwys gwasanaethau unigolyn)

Ble y gallaf gael rhagor o gyngor?

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am hysbysu'r Comisiwn o gyfraniadau gwleidyddol, a rhoi gwybod am roddion a wnaed i gymdeithasau anghorfforedig cysylltwch â ni am ragor o gyngor.

Gellir cael rhagor o wybodaeth a chyngor gan:

Party and Election Finance
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ

Ffôn: 020 7271 0616
Ffacs: 020 7271 0505
E-bost: pef@electoralcommission.org.uk
Gwefan: www.comisiwnetholiadol.org.uk

Neu

The Electoral Commission
Lothian Chambers
59-63 George IV Bridge
Edinburgh EH1 1RN

Ffôn: 0131 225 0200
Ffacs: 0131 225 0205
E-bost: infoscotland@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Swyddfa Cymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE

Ffôn: 029 2034 6800
Ffacs: 029 2034 6805
E-bost: gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

The Electoral Commission
Northern Ireland Office
Seatem House
28-32 Alfred Street
Belfast BT2 8EN

Ffôn: 028 9089 4020
Ffacs: 028 9089 4026
E-bost: infonorthernireland@electoralcommission.org.uk